
sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
## Cynllun Datblygu Lleol

# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)
## Canllaw i Gynigwyr Safleoedd ar gyfer Datblygu



2il Gynllun Adneuo
Chwefror 2023

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# 1.0 Diben y canllaw hwn

1.1 Bwriad y canllaw hwn yw helpu cynigwyr safleoedd ar gyfer datblygu wrth gyflwyno sylwadau i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig, ac mae'n berthnasol i unrhyw berchennog tir neu gynrychiolydd perchennog tir, megis:

- Aelodau o'r cyhoedd;
- Datblygwyr;
- Gwerthwyr tai;
- Cynllunwyr ymgynghorol neu debyg; neu
- Berchenogion tir neu gynrychiolwyr eraill.

1.2 Mae CDLl Diwygiedig Sir Gaerfyrddin yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i fod yn gynllun datblygu newydd ar gyfer y Sir, ac mae'n disodli'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd. Mae'r CDLl yn cynnwys amrywiaeth o bolisïau ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy, ac fe'i hategir gan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) [1] ac Asesiad Rheoleiddio Cynefin (ARC) [2].

1.3 Mae'r CDLl eisoes wedi cymryd cannoedd o safleoedd i ystyriaeth (yn arbennig drwy'r broses safleoedd ymgeisio), ac mae'r Cyngor wedi eu hadolygu hwy a'u hamrywiol briodoleddau i gael detholiad o safleoedd i'w cynnwys yn y CDLl Adneuo. Fodd bynnag, gellir cyflwyno safleoedd i'w hystyried o hyd, a nod y ddogfen hon yw sicrhau bod pob safle'n cael ei gymharu ar sail 'tebyg am debyg'.

1.4 Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl sylwadau a wnaed yn briodol (gan gynnwys sylwadau sy'n benodol i safle). Byddant hefyd ar gael i'r Arolygydd Cynllunio Annibynnol.

1.5 Ar gam adneuo'r CDLl Diwygiedig, mae cyfle i'r holl randdeiliaid roi sylwadau ar y polisïau a'r safleoedd arfaethedig; a chyflwyno sylwadau yn gofyn am newid ffiniau dyraniadau, neu gynnig dileu neu ychwanegu safleoedd newydd.

1.6 Dylai sylwadau a wneir gael eu hategu gan resymeg cynllunio a dylent fod yn unol â fframwaith ACI y Cyngor. Lle y bo'n briodol, bydd angen i safleoedd a gynigir mewn ymateb i'r cam adneuo gyflwyno ACI yn seiliedig ar fframwaith ACI y Cyngor[3], er mwyn sicrhau y gellir ystyried safleoedd o'r fath drwy'r broses archwilio, gan sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol [4]. Ni fydd angen ACI ar safleoedd sydd wedi'u cyflwyno'n flaenorol ar y cam safle ymgeisio, ac sydd wedi symud ymlaen heibio i gam 2b y cam asesu safleoedd. Edrychwch ar y Tabl Asesu Safleoedd Adneuo i gyfeirio ato ymhellach.

1.7 **Mae'r Cyngor yn cynghori'n gryf, wrth ymateb i'r CDLl Diwygiedig, y dylai unrhyw safle(oedd) newydd perthnasol a gynigir gynnwys Arfarniad Cynaliadwyedd (sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol). Nid yw safle nad yw'n destun ISA yn debygol o gael ei ystyried yn addas i'w ddyrannu yn y cynllun[5].**

[1] Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig. 2il CDLl Diwygiedig. Chwefror 2023.
[2] Adroddiad ARC (Ionawr 2020) ac Adendwm ARC (Chwefror 2023).
[3] Atodiad C yr ISA: Atodiadau A-D. Chwefror 2023.
[4] Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004
[5] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Argraffiad 3. Llywodraeth Cymru. 2020.

1.8 **Safleoedd perthnasol -** Ni fydd yn ofynnol i safleoedd tai â llai na 5 annedd neu safleoedd cyflogaeth sy'n llai na 1000 metr sgwâr gwblhau a chyflwyno ISA oni ofynnir iddynt wneud hynny wedyn.

1.9 Er mwyn cynorthwyo cynigwyr safleoedd wrth gynnal ACI, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Pecyn Cymorth Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi cael ei ddefnyddio gan Gyngor Sir Caerfyrddin i asesu pob safle posibl, er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu a fydd yn darparu sail glir ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dylid cyfeirio'n llawn hefyd at y Fethodoleg Asesu Safleoedd wrth gwblhau'r Pecyn Cymorth Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.10 Dylid nodi bod y cyfrifoldeb ar y cynigwyr i fodloni eu hunain eu bod wedi bodloni'r gofynion o ran hyrwyddo eu safleoedd. Yn ogystal, rydym yn annog hyrwyddwyr safleoedd amgen i gyflwyno adroddiadau ARC safle-benodol a/neu wybodaeth gysylltiedig, lle bo'n ymarferol gwneud hynny [6].

## 2.0 Gwybodaeth Gefndirol i'w chyflwyno

2.1 Yn rhan o sylw i'r CDLI Adneuo, bydd angen rhywfaint o wybodaeth gefndirol er mwyn deall cyd-destun safle. Yn hyn o beth, dylid cyfeirio at y ffurflen sylwadau a'r Nodyn Cyfarwyddyd sy'n cyd-fynd â hi. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys:

- Map/cynllun o ffin y safle
- Cyfeirnod y safle (lle bo'n berthnasol)
- Enw a chyfeiriad y safle
- Arwynebedd y safle mewn hectarau (ha)
- Defnydd arfaethedig y safle

2.2 Os yw'r cynnig yn ymwneud â safle ymgeisio nad yw wedi'i gynnwys yn y CDLI adneuo, yna gellir cyfeirio at rif/cyfeirnod y safle ymgeisio. Fodd bynnag, bydd angen cyflwyno Arfarniad Cynaliadwyedd o hyd – ynghyd ag unrhyw wybodaeth bellach, os oedd wedi methu cyn cam 2b y Fethodoleg Asesu Safleoedd.

2.3 Dylid cyfeirio'n llawn at y Fethodoleg Asesu Safle (Medi 2022), sydd ar gael i'w lawrlwytho yma:

https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1231070/site-assessment-methodology-welsh-complete.pdf?v=20230215194127000

2.4 Dylid cyfeirio'n llawn at Gyfyngiadau a Mapiau Cynigion y CDLI diwygiedig, sydd ar gael yma:


https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/2nd-deposit-revised-carmarthenshire-local-development-plan-2018-2033-constraints-map


https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/2nd-deposit-revised-carmarthenshire-local-development-plan-2018-2033-proposals-map

[6] Gweler paragraff 6.23 – Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Rhifyn 3. Llywodraeth Cymru. 2020.

# 3.0 Profforma Asesu Safle & Ffynonellau Data


3.1 Cwblhewch y tabl isod gyda sylwebaeth ar gyfer eich safle a, lle bo'n berthnasol, atodwch dystiolaeth ategol. Mae fformatau amgen yn dderbyniol.

| Cwestiwn | Amcan(ion) ACI | Ffynhonnell Data | Eich Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **C1. A yw'r safle'n gydnaws â lleoliad twf yn y dyfodol a gyflwynir yn y CDLl Adneuo?** | ACI1 | Cyfeiriwch, yn ei chyd-destun, at y strategaeth ofodol yn y CDLl diwygiedig (paragraff 8.20, Pennod 9 a 10, Ffigur 8). | |
| **C2. A all y safle gynnwys 5 neu fwy o anheddau?** | | | |
| **C3. A yw'r safle o fewn, neu'n uniongyrchol gysylltiedig ag anheddiad a nodwyd yn Haenau 1-3 o Strategaeth a Ffefrir y CDLl?** | | Dylid cyfeirio'n llawn at Fapiau Cynigion y CDLlA.<br>Cliciwch  a chwiliwch am:<br> | |
| **C4. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn parth risg llifogydd?** | ACI4<br>ACI5 | Nodwch a yw'r safle wedi'i leoli (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) o fewn Parth A, Parth B, Parth C1, a/neu Barth C2 y Mapiau Cyngor Datblygu. Yn ogystal, nodwch a yw'r safle wedi'i leoli (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) o fewn unrhyw haen a gynhwysir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Darparwch unrhyw asesiad perygl llifogydd ychwanegol a/neu wybodaeth gysylltiedig os yw | |

| Cwestiwn | Amcan(ion) ACI | Ffynhonnell Data | Eich Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | | hyrwyddwyr safleoedd amgen wedi'u cynnal eisoes. | |
| **C5. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu'n union wrth ymyl unrhyw safleoedd sydd wedi'u dynodi am bwysigrwydd i gadwraeth natur?** | ACI2 | Dylid cyfeirio'n llawn at Fapiau Cyfyngiadau'r CDLI diwygiedig.<br><br>Y safleoedd sydd i'w nodi yw:<br>• Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig<br>• Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)<br>• Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)<br>• Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol<br>• Gwarchodfeydd Natur Lleol<br>• Tir comin neu faes pentref cofrestredig<br><br>Gellir cyfeirio hefyd at adroddiadau ARC safle-benodol a/neu wybodaeth ecolegol gysylltiedig, os yw hyrwyddwyr safleoedd amgen eisoes wedi gwneud hynny. | |
| **C6. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu'n union wrth ymyl unrhyw Henebion Cofrestredig?** | ACI8 | Dylid cyfeirio'n llawn at Fapiau Cyfyngiadau'r CDLI diwygiedig.<br>Cliciwch  a chwiliwch am:<br> | |
| **C7. A fyddai datblygu'r safle yn groes i** | | Dylid cyfeirio'n llawn at y Fethodoleg Asesu Safle (gweler paragraffau 4.19 a 4.20). | |

| Cwestiwn | Amcan(ion) ACI | Ffynhonnell Data | Eich Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **egwyddorion cynllunio cyffredinol?** | | | |
| **C8. A fyddai datblygu'r safle'n cael effaith niweidiol ar gymeriad ac amgylchiadau'r anheddiad neu ei nodweddion?** | ACI8<br>ACI9 | Dylid cyfeirio'n llawn at y Fethodoleg Asesu Safle (gweler paragraff 4.21). | |
| **C9. A fydd y cynnig yn cynnwys ailddefnyddio tir a/neu adeiladau addas a ddatblygwyd yn flaenorol?** | ACI9, ACI7 | Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safle (gweler paragraff 4.22). | |
| **C10. A yw'r safle'n hygyrch o'r briffordd gyhoeddus bresennol?** | | | |
| **C11. A oes gan y safle bwynt mynediad ar gael gyda gwelededd digonol?** | | | |
| **C12. A oes unrhyw faterion priffyrdd arwyddocaol y cafwyd tystiolaeth ohonynt wedi'u nodi mewn perthynas â'r safle?** | | | |

| Cwestiwn | Amcan(ion) ACI | Ffynhonnell Data | Eich Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **C13. A oes gan y safle fynediad addas i drafnidiaeth gyhoeddus a/neu lwybr teithio llesol?** | ACI3, ACI4, ACI6, ACI12, ACI13, ACI15 | Dylid cyfeirio'n llawn at y Fethodoleg Asesu Safle (gweler paragraff 4.27).<br><br>Gellir cyfeirio at Llwybrau Teithio Llesol a Gymeradwywyd gan Map Data Cymru. | |
| **C14. A oes gan y safle fynediad i lecynnau gwyrdd, hamdden, a cyfleusterau hamdden sydd o fewn pellter rhesymol?** | ACI12, ACI15 | Dylid cyfeirio'n llawn at Fapiau Cynigion y CDLIA.<br>Cliciwch  a chwiliwch am:<br><br>Sylwch nad yw'r uchod yn hollgynhwysfawr. Rhowch fanylion mannau gwyrdd eraill, cyfleusterau hamdden ac adloniant o fewn cyffiniau'r safle.<br><br>Cyfeirir at y Fethodoleg Asesu Safle (gweler paragraff 4.28). | |
| **C15 A yw'r safle o fewn pellter rhesymol i'r canlynol:**<br>**(a) Darpariaeth cyflogaeth**<br>**(b) Darpariaeth manwerthu** | ACI6, ACI10, ACI14, ACI15 | Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safle (gweler paragraff 4.29). | |

| Cwestiwn | Amcan(ion) ACI | Ffynhonnell Data | Eich Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **(c) Gwasanaethau a chyfleusterau eraill** | | | |
| **C16. A yw'r safle o fewn pellter rhesymol i gyfleusterau addysg?** | ACI13 | Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safle (gweler paragraff 4.30). | |
| **C17. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu wrth ymyl parth clustogi mwynau?** | ACI6 | Dylid cyfeirio'n llawn at Fapiau Cynigion y CDLIA.<br>Cliciwch a chwiliwch am:<br> | |
| **C18. A yw'r safle o fewn Ardal Diogelu Mwynau?** | ACI6 | Dylid cyfeirio'n llawn at Fapiau Cyfyngiadau'r CDLI diwygiedig.<br>Cliciwch a chwiliwch am:<br> | |
| **C19. A yw'r safle o fewn neu'n union wrth ymyl ardal rheoli ansawdd aer?** | ACI3 | Dylid cyfeirio'n llawn at Fapiau Cyfyngiadau'r CDLI diwygiedig.<br>Cliciwch a chwiliwch am: | |

| Cwestiwn | Amcan(ion) ACI | Ffynhonnell Data | Eich Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | | Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer | |
| **C20. A yw'r safle yn cynnwys pridd carbon uchel e.e. mawn?** | ACI7 | Gellir dod o hyd i fap o adnoddau mawn yma: https://mapdata.llyw.cymru/maps/peatlands-of-wales-maps/ | |
| **C21. A yw'r safle'n cynnwys tir amaethyddol o ansawdd uchel?** | ACI7 | Mae map o adnoddau pridd amaethyddol i'w weld yma: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-wg:wg_predictive_alc2 | |
| **C22. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu'n union gerllaw unrhyw Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol Pwysig Rhanbarthol?** | ISA9 | Dylid cyfeirio'n llawn at Fapiau Cyfyngiadau'r CDLl diwygiedig.<br>Cliciwch a chwiliwch am:<br>Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol | |
| **C24. A oes cysylltiad dŵr ar gael ar y safle?** | | Cyfeirir at y Fethodoleg Asesu Safle (paragraff 4.41) | |
| **C25. A yw'r safle o fewn neu gerllaw dalgylch ACA sensitif i ffosffad?** | ACI2<br>ACI5<br>ACI7 | Dylid cyfeirio'n llawn at Map Data Cymru.<br>Cliciwch a chwiliwch am:<br>NRW_PHOSPHORUS_SENSITIVE_SAC_FRESHWATER_CATCHMENTS<br>NRW_PHOSPHORUS_SENSITIVE_SAC_FRESHWATER_CATCHMENTS<br>Ni ddarparwyd crynodeb. | |

| Cwestiwn | Amcan(ion) ACI | Ffynhonnell Data | Eich Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | | Gellir cyfeirio hefyd at adroddiadau ARC safle-benodol a/neu wybodaeth gysylltiedig, os yw hyrwyddwyr safleoedd amgen eisoes wedi gwneud hynny. | |
| **C26. A oes gan y safle gysylltiadau â gofynion seilwaith eraill?** | | | |
| **C27. A oes gan leoliad a/neu faint y safle y potensial i gael effaith andwyol ar y Gymraeg?** | ACI11 | Dylid cyfeirio'n llawn at Fethodoleg Asesu Safleoedd (gweler paragraffau 4.47 a 4.48). | |

Diwygiedig 2018-2033
Cynllun Datblygu Lleol

# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)

2il Gynllun Adneuo
Chwefror 2023

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council